Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Gweithredu

## Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar 2020-2025



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad a Chyd-destun | 3 |
| 2. Enwogion o Gymru a Menter Cenhadon Cymru | 4 |
| 3. Rhwydwaith Busnes Cymry ar Wasgar | 5 |
| 4. Cymry ar Wasgar Ledled y Byd | 6 |
| 5. Llywodraethu a Chydweithio ag Eraill | 7 |
| 6. Gwerthuso | 8 |


© Hawlfraint y Goron 2020
WG41045 ISBN digidol 978-1-80082-251-1

# Cyflwyniad a Chyd-destun

Roedd ein Strategaeth Ryngwladol[1], a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn nodi ein huchelgeisiau i wneud y canlynol:

- Codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol;
- Tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu buddsoddiadau o'r tu allan; a
- Sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r strategaeth yn ceisio gwella enw da Cymru ar y llwyfan byd-eang. Ein pobl yw ein hyrwyddwyr pennaf a'r ffordd orau o adrodd hanes Cymru yw drwy eu lleisiau. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio grym Cymry ar wasgar i sicrhau bod yr hanes hwn yn cael ei glywed.

Mae Cynllun Gweithredu effeithiol ar Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar yn dechrau â dealltwriaeth glir o'r diffiniad o Gymry ar wasgar. Rydym wedi dosbarthu'r Cymry ar wasgar i'r pum categori canlynol:

- **Cymry ar wasgar a fu'n byw yng Nghymru** – unigolion a anwyd yn y wlad ac sydd bellach yn byw yn barhaol neu dros dro mewn gwlad arall.
- **Cymry ar wasgar o dras Cymreig** – unigolion sydd â chysylltiadau â'r wlad drwy eu cyndeidiau.
- **Cymry ar wasgar y genhedlaeth nesaf** – dyma aelodau iau'r Cymry ar wasgar, sydd fel arfer dan 35 oed.
- **Cymry ar wasgar sydd wedi dychwelyd** – Cymry ar wasgar sydd wedi byw dramor ac sydd bellach wedi dychwelyd i Gymru.
- **Pobl sydd â chysylltiad â Chymru** – dinasyddion gwledydd eraill sy'n gweithio neu'n astudio, neu a fu'n gweithio neu'n astudio, yng Nghymru.

Gall yr holl grwpiau hyn fod yn asedau gwerthfawr i Gymru ac felly mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn mabwysiadu'r diffiniad ehangaf o Gymry ar wasgar.

Mae gan Gymry ar wasgar ledled y byd rôl hollbwysig i'w chwarae wrth adrodd hanes y wlad a, hyd yma, nid yw'r ased hwn wedi'i ddefnyddio ddigon. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio Cymry ar wasgar a chyfeillion Cymru i helpu i gyflwyno Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, a sicrhau ein bod yn fwy cystadleuol ac adnabyddus ar y llwyfan byd-eang. Bydd datblygu perthynas effeithiol â Chymry ar wasgar yn cynnig llwyfan i arddangos rhagoriaeth Cymru a bydd hefyd yn cefnogi'r targed yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, sef cyrraedd 500,000 o Gymry ar wasgar dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn un o gyfres o ddogfennau y dylid eu darllen ar y cyd â'r Cynllun Ymgysylltu Rhanbarthol, y Cynllun Diplomyddiaeth Gyhoeddus a Chymell Tawel, Cynllun Gweithredu Cymru ac Affrica a'r Cynllun Gweithredu ar Allforio. Bydd ein holl gynlluniau yn cael eu hategu gan ymgyrchoedd cyfathrebu, gan ddefnyddio ein swyddfeydd dramor ac yng Nghymru a chydweithio â'n partneriaid. Mae llwyddiant y Cynlluniau Gweithredu hyn yn dibynnu ar gydweithio a defnyddio grym partneriaeth. Cydweithio yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod gan Gymru broffil uwch ar lwyfan y byd.

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ac effaith economaidd COVID-19 yn golygu ei bod yn hanfodol bod gan Gymru broffil rhyngwladol uwch. Bydd ein sefyllfa fyd-eang well yn ein galluogi i gyflwyno Cymru ymhellach fel cenedl flaengar sy'n edrych tuag at allan ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Bydd ymgysylltu â'r gymuned Cymry ar wasgar yn ein galluogi i recriwtio rhwydwaith byd-eang o hyrwyddwyr a fydd yn gallu rhannu ein hanes a hyrwyddo ein gwlad. Yn sail i'n hanes fydd prif werthoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n arwain y byd ac sy'n rhoi llesiant hirdymor ein dinasyddion wrth galon y broses o wneud penderfyniadau.

Bydd ymgysylltu â Chymry ar wasgar yn ein galluogi i arddangos diwylliant a threftadaeth Cymru a bydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo'r sectorau lle mae busnesau yng Nghymru yn arwain y byd, gan gefnogi ein huchelgais cyffredinol i ddenu buddsoddiadau o'r tu allan a hyrwyddo allforion o Gymru.

Bydd ymgysylltu'n effeithiol â Chymry ar wasgar yn helpu i adrodd ein hanes unigryw a gwahaniaethu Cymru oddi wrth wledydd eraill mewn marchnad fyd-eang.

**Ein Gweledigaeth yw:**

Datblygu cymuned fyd-eang o Gymry ar wasgar a fydd yn codi proffil byd-eang Cymru, yn arddangos ac yn hyrwyddo meysydd o ragoriaeth yng Nghymru ac yn cyflwyno Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

**Ein Cenhadaeth yw:**

- Cydweithio â phartneriaid i greu 500,000 o gysylltiadau â Chymry ar wasgar dros y pum mlynedd nesaf.
- Recriwtio a chydweithio â Chymry enwog i hyrwyddo negeseuon allweddol a gwella sefyllfa Cymru yn y byd.
- Datblygu rhwydweithiau rhyngwladol Cymry ar wasgar a fydd yn hyrwyddo ac yn cefnogi twf economi Cymru ac yn arddangos meysydd y mae Cymru'n rhagori ynddynt.
- Datblygu cymuned ryngwladol o Gymry, neu o bobl sydd â chysylltiad â Chymru fydd yn eirioli ar ran Cymru.
- Sicrhau bod swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled y byd yn ymgysylltu â Chymry ar wasgar o leiaf unwaith y flwyddyn yn gorfforol ac o leiaf unwaith y mis o bell.

[1] Strategaeth Ryngwladol i Gymru: **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/strategaeth-ryngwladol-i-gymru.pdf**

# Enwogion o Gymru a Menter Cenhadon

## Enwogion o Gymru

Byddwn yn datblygu perthynas ag ychydig o enwogion o Gymru sy'n adnabyddus yn rhyngwladol, neu enwogion sydd â chysylltiad â Chymru, er mwyn hyrwyddo Cymru i'r byd.

Diben yr ymgyrch fydd:

- Datblygu perthynas bwrpasol â wynebau enwog o Gymru i godi proffil byd-eang Cymru ym meysydd twristiaeth, busnes, chwaraeon, diwylliant a'r sector creadigol.
- Cefnogi Cymru Greadigol wrth gyflwyno Cymru fel canolfan ragoriaeth ar gyfer y Diwydiannau Creadigol.

**Ein Camau Gweithredu:**

- Lansio'r fenter o gwmpas Dydd Gŵyl Dewi 2021.
- Adeiladu ar y lansiad cychwynnol er mwyn datblygu rhagor o gefnogaeth yn 2021 a thu hwnt.
- Defnyddio'r enwogion o Gymru i gefnogi gweithgarwch mewn digwyddiadau allweddol, gan gynnwys Pencampwriaeth Bêl-droed Ewrop.

## Menter Cenhadon

Mae menter cenhadon Cymru wedi ymgysylltu ag unigolion o Gymru, neu unigolion sydd â chysylltiad cryf â Chymru, ac sydd wedi cyrraedd y brig yn eu meysydd. Drwy'r fenter, byddwn yn sicrhau cefnogaeth rhwydwaith bach o ddynion a menywod llwyddiannus iawn sydd â phroffil rhyngwladol ac a fydd yn cynnig cefnogaeth yn y farchnad i'n huchelgeisiau o ran allforio a buddsoddi o'r tu allan, gan chwarae rôl ehangach wrth godi ymwybyddiaeth o Gymru a hyrwyddo meysydd y mae Cymru'n rhagori ynddynt. Bydd yr unigolion hyn, sydd eisoes wedi dangos ymrwymiad i hyrwyddo Cymru, yn cael y teitl swyddogol 'Cennad Llywodraeth Cymru'.

Diben y fenter cenhadon yw:

- Codi proffil byd-eang Cymru;
- Agor drysau a sicrhau cyfleoedd er budd Cymru;
- Cefnogi gweithgarwch Llywodraeth Cymru, gartref a thramor.

Bydd y cenhadon, drwy eu proffil a'u cysylltiadau, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ar draws y Cynlluniau Gweithredu a sicrhau cyfleoedd newydd i Gymru. Mae maint a'r math o weithgareddau mae'r cenhadon yn ymgymryd â nhw yn dibynnu ar yr unigolyn a'i faes arbenigedd. Mae enghreifftiau o'r math o weithgareddau y gallai'r cenhadon ymgymryd â nhw yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar gyfleoedd busnes tramor.
- Ymgysylltu â chysylltiadau busnes allweddol a rhanddeiliaid dylanwadol eraill, gyda'r nod o ddatblygu diddordeb yng Nghymru fel lle i fuddsoddi.
- Cefnogi digwyddiadau rhyngwladol a theithiau masnach Llywodraeth Cymru.
- Hybu dealltwriaeth o Gymru, mewn meysydd fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cyfrannu at/cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cyfathrebu perthnasol.
- Cynnal/mynychu digwyddiadau/ymrwymiadau siarad.

**Ein Camau Gweithredu:**

- Mewn partneriaeth, datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob cennad erbyn Rhagfyr 2020 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol.
- Cyhoeddi'r ail garfan o genhadon erbyn haf 2021.
- Defnyddio proffil a dylanwad y cenhadon i gefnogi gweithgarwch Llywodraeth Cymru mewn digwyddiadau rhyngwladol allweddol, fe Expo 2020, Cyber UK, COP26 a'r Gemau Olympaidd yn Tokyo.

# Rhwydwaith Busnes Cymry ar Wasgar


Rydym yn creu rhwydwaith busnes Cymry ar wasgar byd-eang er mwyn cefnogi ein Cynllun Gweithredu ar Allforio a'n rhaglen buddsoddi o'r tu allan. Mae'r rhwydwaith yn cefnogi'r nod o dyfu economi Cymru, yn ogystal â chynyddu proffil byd-eang Cymru, yn benodol codi ymwybyddiaeth a chreu diddordeb mewn sectorau lle mae gan Gymru alluoedd o safon fyd-eang, gan gynnwys: lled-ddargludyddion cyfansawdd; seiberddiogelwch; gwyddorau bywyd; technoleg ariannol; ynni adnewyddadwy/ynni'r môr a gweithgynhyrchu uwch yn y sector modurol a'r sector awyrofod.

Rydym yn cydweithio â sefydliad partner i greu rhwydwaith busnes Cymry ar wasgar a fydd yn:

- Ymgysylltu â chlystyrau, sefydliadau academaidd a rhanddeiliaid dylanwadol eraill.
- Cynnig cefnogaeth yn y farchnad ar gyfer teithiau masnach i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo allforion o Gymru.
- Nodi partneriaid posibl i gwmnïau sy'n cymryd rhan mewn teithiau masnach.
- Mentora busnesau yng Nghymru sydd am allforio.
- Trefnu a darparu gweithgarwch cyfathrebu yn y farchnad i godi ymwybyddiaeth o 'gynnig Cymru'.

**Ein Camau Gweithredu:**

- Sicrhau bod aelodau o'r rhwydwaith busnes Cymry ar wasgar ar waith mewn marchnadoedd masnachu â blaenoriaeth erbyn mis Medi 2021. Y marchnadoedd hynny yw:
  - **Yr Undeb Ewropeaidd** – yn benodol yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon, Yr Iseldiroedd, Gwlad Belg, Sbaen a'r Eidal.
  - **Gogledd America** – UDA a Chanada.
  - **Y Dwyrain Canol** – gwledydd Cyngor Cydweithredol y Gwlff.
  - **Asia** – Tsieina, India, Japan, Maleisia, Singapôr a De Korea.
- Mewn partneriaeth â'r rhwydwaith, datblygu cynllun cyfathrebu i hyrwyddo 'cynnig Cymru' mewn marchnadoedd allweddol.



# Cymry ar Wasgar Ledled y Byd

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn nodi ac yn mapio'r Cymry ar wasgar ledled y byd ac yn creu'r 500,000 o gysylltiadau yr oeddem wedi ymrwymo i'w creu yn y Strategaeth Ryngwladol. Nod y gwaith hwn yw defnyddio'r Cymry ar wasgar i godi proffil byd-eang Cymru. Rydym am i Gymru elwa ar frwdfrydedd ein cymuned o Gymry ar wasgar a'u galluogi a'u cefnogi i hyrwyddo Cymru ar lefel fyd-eang.

Yn y maes gwaith hwn, byddwn yn ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol:

- Mapio'r Cymry ar wasgar dramor: pwy ydynt a ble maent.
- Defnyddio, cydgysylltu a hyrwyddo gwaith rhwydweithiau Cymry ar wasgar presennol.
- Cydweithio â sefydliadau Cymreig perthnasol i hyrwyddo negeseuon allweddol y Llywodraeth a rhanddeiliaid ymhlith y gymuned Cymry ar wasgar, a'u hannog i ledaenu'r rhain yn fyd-eang.
- Ymgysylltu'n sylweddol ac yn rheolaidd â'r gymuned Cymry ar wasgar.
- Hyrwyddo twristiaeth a mesur y budd economaidd yn sgil ymgysylltu â'r gymuned Cymry ar wasgar o ran cynnydd mewn twristiaid o dramor sy'n ymweld â Chymru.
- Hyrwyddo masnach a buddsoddi a meysydd rhagoriaeth Cymru dramor a mesur y budd economaidd yn sgil ymgysylltu â'r gymuned Cymry ar wasgar o ran cynnydd mewn allforion o Gymru a buddsoddiadau o'r tu allan.
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau Cymry ar wasgar ledled y byd, eu cefnogi ac ymgysylltu â nhw, er enghraifft, Gŵyl Cymru Gogledd America.

**Ein Camau Gweithredu:**

- Penodi partner cyflawni allanol erbyn haf 2021.
- Llunio dangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn mesur y budd economaidd yn sgil ymgysylltu â Chymry ar wasgar ac yn sicrhau ein bod yn creu'r 500,000 o gysylltiadau â Chymry ar wasgar erbyn 2025.
- Darparu adnoddau i sefydliadau Cymry ar wasgar allweddol i'n helpu i hyrwyddo neges Cymru, yn enwedig adeg Dydd Gŵyl Dewi.
- Ar y cyd â phartneriaid allweddol, datblygu cynllun cyfathrebu â Chymry ar wasgar.
- Sefydlu a chynnal deialog gyson â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i rannu'r arferion gorau a thrafod cynnydd.
- Manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan ddigwyddiadau mawr, megis Pencampwriaeth Bêl-droed Ewrop 2021 a Chwpan Rygbi'r Byd 2023, i ymgysylltu â Chymry ar wasgar.

## Cyn-fyfyrwyr

Bydd myfyrwyr rhyngwladol ac academyddion prifysgolion sydd wedi astudio a gweithio ym mhrifysgolion Cymru wedi datblygu cysylltiad agos â Chymru. Maent yn rhan bwysig o'r gymuned Cymry ar wasgar ac mae ganddynt y potensial i weithredu fel ein hyrwyddwyr cryfaf. Byddwn yn ceisio gwella ein gwaith ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr ac academyddion Cymru dros y blynyddoedd nesaf drwy gydweithio â Chymru Fyd-eang a phrifysgolion Cymru i ddarparu digwyddiadau i gyn-fyfyrwyr, gan ddechrau â digwyddiadau yn yr Almaen ac yn yr Iseldiroedd yn 2021. Yn ogystal, byddwn yn cydweithio â Chymru Fyd-eang i roi cynnwys perthnasol i brifysgolion Cymru ei rannu â'u rhwydweithiau cyn-fyfyrwyr.

**Ein Camau Gweithredu:**

- Trefnu digwyddiadau mewn cydweithrediad â Chymru Fyd-eang, fel rhan o weithgarwch Dydd Gŵyl Dewi 2021.
- Datblygu cynllun cyfathrebu â chyn-fyfyrwyr, ar y cyd â Chymru Fyd-eang, i sicrhau ymgysylltu hirdymor â chyn-fyfyrwyr Cymru, erbyn haf 2021.

# Llywodraethu a Chydweithio ag Eraill

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Ryngwladol, ymgynghorwyd yn eang â bron 600 o bartneriaid a rhanddeiliaid. Wrth ei chyflawni, rydym yn awyddus i weld yr ymgysylltu hwn yn parhau drwy strwythur llywodraethu ffurfiol ar gyfer ein prif bartneriaid a rhanddeiliaid.

Er mai cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru yw hwn, rydym yn cydnabod, er mwyn cael effaith, fod angen inni gydweithio ag eraill. Yn ogystal,, rydym yn cydnabod bod nifer o sefydliadau eisoes yn ymgysylltu'n llwyddiannus â Chymry ar wasgar. Lle bo'n bosibl, byddwn yn cydweithredu â'r sefydliadau hyn i sicrhau bod ein hamcanion ar y cyd yn cael eu cyflawni. Ni all Cymru ond elwa ar gydweithredu a chydweithio. Byddwn hefyd yn hyrwyddo gwaith y sefydliadau hyn wrth inni roi'r cynllun hwn ar waith. Mae cefnogaeth ac arbenigedd y sefydliadau hyn yn hollbwysig i sicrhau llwyddiant ein hymgysylltu â Chymry ar wasgar.

Bydd ein rhwydwaith o swyddfeydd tramor hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol wrth gyflawni'r cynllun gweithredu hwn. Mae ymgysylltu â Chymry ar wasgar eisoes yn un o flaenoriaethau ein swyddfeydd a byddwn yn parhau i gydweithio â nhw i sicrhau bod ymgysylltu â Chymry ar wasgar yn rhan flaenllaw o'u gweithgarwch parhaus.

**Ein Camau Gweithredu:**

- Cynnal o leiaf dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r sefydliadau ymgysylltu â Chymry ar wasgar unigol i drafod cynnydd, rhannu'r arferion gorau a phenderfynu ar feysydd ar gyfer cydweithredu.
- Sicrhau bod hyrwyddo'r sefydliadau hyn a'u gwaith yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau cyfathrebu â Chymry ar wasgar.
- Cydweithio â'n rhwydwaith tramor i ddatblygu cynlluniau ymgysylltu â Chymry ar wasgar sy'n benodol ar gyfer gwledydd ein marchnadoedd blaenoriaeth.



# Gwerthuso

Isod, amlinellir sut y bydd pob un o bedwar llinyn y cynllun ymgysylltu â Chymry ar wasgar yn cael ei werthuso:

## Enwogion o Gymru

Bydd yr elfen hon yn cael ei gwerthuso drwy nifer y bobl sy'n gweld ac yn ymgysylltu â chynnwys gan yr enwogion o Gymru ar draws y cyfryngau cymdeithasol, ar wales.com/cy a phlatfformau a sianelau ychwanegol partneriaid. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu ynghylch cyfleoedd sy'n ymwneud ag adegau penodol, fel Dydd Gŵyl Dewi, digwyddiadau chwaraeon neu ddiwylliannol a gwyliau, lle mae sylw rhyngwladol ar Gymru, er mwyn gwerthuso sut y mae defnyddio wynebau enwog o Gymru yn cael effaith ar gyrhaeddiad ein cynnwys.

## Menter Cenhadon Cymru

Byddwn yn gweithio gyda phob cennad i gadarnhau pa gefnogaeth yn y farchnad y gall ei chynnig i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn y sgyrsiau hyn, byddwn yn datblygu cynllun gweithgareddau i bob un o'r cenhadon. Yna, byddwn yn cynnal cyfarfodydd 'cyswllt' misol gyda'r cenhadon a, lle bo'n berthnasol, y swyddfa ryngwladol berthnasol, i drafod cynnydd mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Yn ogystal, byddwn yn cynnal cyfarfodydd adolygu blynyddol gyda'r cenhadon i drafod y rôl, yr effaith y maent wedi'i chael ac a yw'r ddwy ochr yn dymuno parhau â'r bartneriaeth ai peidio.

Os yw cennad wedi cefnogi taith fasnach neu ymweliad gan Weinidog er enghraifft, byddwn yn trafod gyda'r swyddogion sy'n ymwneud â darparu'r gweithgareddau hyn yr effaith a gafodd cyfraniad y cennad ar lwyddiant yr ymweliad ac unrhyw ganlyniadau gweladwy yn sgil y ffaith ei fod wedi cymryd rhan.

## Rhwydwaith Busnes Cymry ar Wasgar

Mae'r gwaith o recriwtio a rheoli'r rhwydwaith busnes Cymry ar wasgar yn cael ei gontractio i drydydd parti. Dewiswyd y contractwr ar sail ei allu i gyflawni'r nodau ym manyleb y contract a bydd ei berfformiad yn cael ei fonitro yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae cynnydd mewn perthynas â'r dangosyddion hyn yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd monitro rheolaidd rhwng swyddogion a'r contractwr. Bydd y dangosyddion perfformiad allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â 10 o gyfleoedd am brosiectau 'newydd i Gymru' sy'n creu swyddi'n uniongyrchol bob blwyddyn.
- Cyflwyno cwmnïau Cymreig i gydweithredwyr posibl ar o leiaf bum taith fasnach y flwyddyn.
- Dod o hyd i gysylltiadau ymhlith Cymry ar wasgar sy'n gallu mentora cwmnïau Cymreig sydd am fasnachu gyda marchnadoedd masnachu blaenoriaeth Llywodraeth Cymru:
  - **Yr Undeb Ewropeaidd** – yn benodol yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon, Yr Iseldiroedd, Gwlad Belg, Sbaen a'r Eidal.
  - **Gogledd America** – UDA a Chanada.
  - **Y Dwyrain Canol** – gwledydd Cyngor Cydweithredol y Gwlff.
  - **Asia** – Tsieina, India, Japan, Maleisia, Singapôr a De Korea.

Mae'r contract hwn yn cynnwys adolygiad blynyddol. Mae'r adolygiad hwn yn cynnig cyfle i ddod â'r contract i ben os na fydd y perfformiad yn foddhaol.

## Cymry ar Wasgar Ledled y Byd

Fel y rhwydwaith busnes Cymry ar wasgar, bydd trydydd parti yn cyflawni'r gwaith hwn hyd braich oddi wrth y Llywodraeth. Byddwn yn gweithio gyda'r contractwr i ddiffinio llwyddiant a byddwn yn llunio nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol a chanlyniadau a ddymunir. Bydd perfformiad mewn perthynas â'r dangosyddion perfformiad allweddol hynny yn cael ei adolygu'n rheolaidd gyda'r contractwr i sicrhau perfformiad boddhaol. Bydd y dangosyddion perfformiad allweddol a'r canlyniadau a ddymunir yn cynnwys y canlynol:

- Darparu 500,000 o gysylltiadau â Chymry ar wasgar a throsglwyddo perchnogaeth o'r cysylltiadau hyn i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd y contract.
- Mewn partneriaeth â'r contractwr, gosod targedau ynghylch y budd economaidd i Gymru yn sgil cysylltu â Chymry ar wasgar.
- Recriwtio a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau Cymry ar wasgar er mwyn hyrwyddo eu prif negeseuon a chefnogi eu hamcanion, e.e. cynyddu eu sylfaen aelodaeth.

Bydd y contract hwn yn cynnwys adolygiad blynyddol. Mae'r adolygiad hwn yn cynnig cyfle i ddod â'r contract i ben os na fydd y perfformiad yn foddhaol.